

Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru

Aelodaeth Tîm 2022-23



Rhwydwaith cynhwysol ydym o unigolion sy'n creu newid ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau, sydd â chred gyffredin yng ngwerth cydgynhyrchu ac ymgyfraniad, ac sy'n dod ynghyd i ysbrydoli, grymuso a chefnogi ein gilydd.

Mae aelodaeth i unigolion am ddim am byth; gall unrhyw un sydd â diddordeb ymuno heb unrhyw gyfyngiadau o ran cost neu ganiatâd.

Mae'r **ffioedd aelodaeth ar gyfer timau** yn ein galluogi i gynnal a chefnogi'r rhwydwaith bywiog hwn o bobl, grwpiau, timau a sefydliadau sy'n troi cydgynhyrchu trawsnewidiol yn realiti yng Nghymru. Ac fel sefydliad sy'n ymaelodi, byddwch yn enwebu eich hyrwyddwyr cydgynhyrchu, sy'n gallu bod yn aelodau staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, defnyddwyr gwasanaeth a/neu bobl sy'n gweithio i (neu'n gweithio'n agos gydag) eich sefydliad. Mae'r Rhwydwaith Cydgynhyrchu yn eu helpu i wella eu harferion cydgynhyrchu, ei ddatblygu ymhellach ar draws eich timau, cynyddu eich effaith fel sefydliad, a datblygu eich nodau o safbwynt cydgynhyrchu strategol ac ymgyfraniad.

Cynigion aelodaeth unigol:	Mae aelodaeth tîm yn cynnig hyn oll i'ch hyrwyddwyr, ynghyd â:
<ul style="list-style-type: none">• Cyfleoedd i rwydweithio a meithrin cysylltiadau gydag aelodau eraill, a dysgu o arferion a rennir• Mynediad at wybodaeth ac adnoddau, sesiynau briffio a hyfforddi a gweminarau ar themâu penodol• Bod yn rhan o fudiad, ac yn rhan o lais ar y cyd o safbwynt dylanwadu ar bolisi a'r broses o wneud penderfyniadau	<ul style="list-style-type: none">• Gwiriad blynyddol o'ch nodau, dyheadau ac anghenion datblygu o safbwynt cydgynhyrchu• Hyfforddiant i "Hyrwyddwyr Cydgynhyrchu" i'w paratoi gyda'r adnoddau a'r sgiliau i rannu cydgynhyrchu a chefnogi dysgu ac arferion cydweithwyr• Mynediad cynnar a gostyngiadau ar gyfer digwyddiadau lle mae angen tocynnau, hyfforddiant a chysiau e-ddysgu• Mynediad at sesiynau mentora a chyngor gydag ymgynghorwyr ym maes cydgynhyrchu, er mwyn herio a dilysu eich arferion mewn ffordd adeiladol• Cefnogaeth gyda sesiynau briffio cydgynhyrchu ar gyfer timau neu gydweithwyr sy'n uwch arweinyddion• Bathodyn digidol ac asedau ar gyfer eich gwefan a llofnodion ebost, i ddangos eich ymrwymiad fel sefydliad i gydgyhoeddwr ac ymgyfraniad

Cwestiynau? Siaradwch gyda ni yma helo@copronet.cymru



I greu Cymru decach a mwy cynaliadwy lle mae gan bawb lais: copronet.cymru | helo@copronet.cymru

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu ac Ymgyfraniad Cymru Cyf yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant, dielw, sy'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Ei enw masnachu yw Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Rhif y Cwmni: 12009551. Rhif TAW y DU: 328 6382 80.



Manylion a Chostau Aelodaeth 2022-23

Ar gyfer pwy mae hyn?

Gallwch ymaelodi fel tîm, fel adran neu fel sefydliad cyfan. Gallwch ddod o'r sectorau statudol, dielw, neu academaidd. Nid oes rhaid ichi gael eich lleoli yng Nghymru i elwa o fod yn rhan o'r gymuned ymarfer! Os nad ydych yn gweithio yng nghyd-destun polisi datganoledig Cymru, bydd hyn yn defnyddiol iawn os oes gan eich sefydliad ymrwymiad strategol a/neu bolisi sefydledig i gydgyhyrchu.

Sut mae'n gweithio?

Chi sy'n dewis faint o hyrwyddwyr i'w henwebu, i eirioli ar ran a chefnogi cydweithwyr ym maes cydgynhyrchu. Seilir eich ffioedd aelodaeth ar nifer yr hyrwyddwyr.

Hyrwyddwyr	Sector y Llywodraeth a'r sector statudol	Sector mawr a'r trydydd sector cenedlaethol	Sector rhanbarthol a'r trydydd sector canolig ei maint	Sector lleol, cymunedol a'r trydydd sector bach
1 - 5	£600 + TAW (£720)	£400 + TAW (£480)	£200 + TAW (£240)	£100 + TAW (£120)
6 - 10	£1,200 + TAW (£1,440)	£800 + TAW (£960)	£400 + TAW (£480)	£200 + TAW (£240)
11 - 20	£2,400 + TAW (£2,880)	£1,600 + TAW (£1,920)	£800 + TAW (£960)	£400 + TAW (£480)
21 neu fwy	Pwrpasol, seilir ar £120 + TAW fesul hyrwyddwr y flwyddyn	Pwrpasol, seilir ar £80 + TAW fesul hyrwyddwr y flwyddyn	Pwrpasol, seilir ar £40 + TAW fesul hyrwyddwr y flwyddyn	Pwrpasol, seilir ar £20 + TAW fesul hyrwyddwr y flwyddyn

Y print mân:

- Aelodaeth flynyddol yw hon sy'n rhedeg o 1af Ebrill hyd at 31ain Mawrth.
- Mae aelodaeth oes ar gael ar gyfer prosiectau: pro rata o ran hyd eich prosiect tymor penodol mewn misoedd llawn, hyd at uchafswm o 5 mlynedd.
- Ar hyn o bryd, telir aelodaeth trwy anfoneb (yn y dyfodol byddwch yn gallu cofrestru, adnewyddu a thalu trwy'r wefan).
- Os byddwch yn ymaelodi yn ystod y flwyddyn, seilir eich ffi ymaelodi ar nifer y misoedd llawn, pro rata.



I greu Cymru decach a mwy cynaliadwy lle mae gan bawb lais: copronet.cymru | helo@copronet.cymru

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu ac Ymgyfraniad Cymru Cyf yn gwmni preifat cyfyngedig trwy warant, dielw, sy'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Ei enw masnachu yw Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Rhif y Cwmni: 12009551. Rhif TAW y DU: 328 6382 80.